# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Gwener, 23 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddog canlynol yn bresennol:**
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin - 9.30 - 9.40 am

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr ALl yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd nodwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y swydd yn wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn cael ei gynnwys yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Bancffosfelen**<br>(2 le gwag – 1 enwebiad) | Mr E. Bowen |
| **Glanyfferi**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Mair Stephens |
| **Talacharn**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr R. Thomas |
| **Llanmilo**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs G. Cole |
| **Llys Hywel**<br>(2 le gwag - 2 enwebiad) | Miss M. James<br><br>Miss S. Thomas |

| | |
|---|---|
| **Meidrim**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs A. Adams-Jones |
| **Pen-y-groes**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs R.C. Mann |
| **Dyffryn y Swistir**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr M. Christopher |
| **Y Castell**<br>(2 le gwag – 1 enwebiad | Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey |

## 3. CYMERADWYO DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a fanylai ar ddyddiadau arfaethedig tymhorau a gwyliau'r ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Dywedwyd bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Deddf Addysg (Cymru) 2914 i wneud newidiadau deddfwriaethol i sut y pennir dyddiadau'r tymor er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion yn yr holl ysgolion a gynhelir.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn roedd angen i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig gydweithio er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau yr un fath, neu cyn agosed ag y bo modd. Gallai ysgolion hefyd gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch dyddiadau eu tymhorau, os nad oedd y dyddiadau hynny'n gyson, neu os oedd angen eu newid.

Gan roi sylw i ofynion y Ddeddf, yr oedd y dyddiadau arfaethedig canlynol wedi'u paratoi ar gyfer dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion yn sgil eu trafod ac yn sgil ymgynghori'n gyffredinol â'r awdurdodau cyfagos:-

| Tymor | Dechrau | Dechrau Hanner Tymor | Diwedd Hanner Tymor | Diwedd y Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Llun 2 Medi 2019 | Llun 28 Hydref 2019 | Gwener 1 Tachwedd 2019 | Gwener 20 Rhagfyr 2019 |
| **Gwanwyn** | Llun 6 Ionawr 2020 | Llun 17 Chwefror 2020 | Gwener 21 Chwefror 2020 | Gwener 3 Ebrill 2020 |
| **Haf** | Llun 20 Ebrill 2020 | Llun 25 Mai 2020 | Gwener 29 Mai 2020 | Llun 20 Gorffennaf 2020 |

*Sul y Pasg - Dydd Sul 12 Ebrill 2020; ; Calan Mai - Dydd Llun 4 Mai 2020*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr ymarfer hysbysu yn ystod yr haf y llynedd wedi llwyddo i gysoni dyddiadau'r tymhorau bron yn llwyr, a phenderfyniad y Gweinidog oedd peidio â defnyddio'i phwerau disgresiwn i

gysoni'r dyddiadau ac felly nid oedd angen ymgynghori. Fodd bynnag, disgwylir i bob Awdurdod Lleol gadarnhau'r dyddiadau yr oeddent wedi eu pennu'n amodol ar gyfer 2019/20, a oedd yr un peth ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau'r Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20.**

**4. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 25AIN IONAWR 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018, gan ei fod yn gywir.**

______________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**